Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Mawrth 2025

(Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg)

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Ymarfer Hapsamplu Stopio a Chwilio y Panel Craffu

## Canfyddiadau ac Adborth yr Aelodau

## Mawrth 2025

## Cynnwys


1. Trosolwg, Cefndir, Diben a Methodoleg 3

2. Crynodeb gweithredol 5

3. Adolygiad o gofnodion stopio a chwilio 6

4. Ymateb i ymholiadau a godwyd 14

5. Cam Nesaf 22

## 1. Trosolwg, Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae'r llawlyfr sicrhau ansawdd ar wefan Heddlu Dyfed-Powys, yn nodi cefndir, diben a methodoleg y panel.

Ar 26 Mawrth 2025, cyfarfu aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys i adolygu detholiad o ddigwyddiadau stopio a chwilio yn ymwneud ag oedolion a phobl ifanc. Gofynnwyd i'r panel graffu ar ddetholiad o ffurflenni stopio a chwilio a'u delweddau camera corff cysylltiedig.

Rhoddodd rhingyll o'r Uned Plismona Ffyrdd, a oedd wedi rhoi mewnbwn ar stopio a chwilio a defnyddio grym i baneli megis y Grŵp Cynghori Annibyn-nol a'r Llysgenhadon Ieuenctid, fewnbwn ar yr acronym GOWISELY:

- **G**rounds – amlinellu'r rhesymau dros chwilio
- **O**bject – nodi gwrthrych y chwiliad
- **W**arrant – os nad yw'r swyddog yn gwisgo lifrai
- **I**dentity – enw a rhif y swyddog
- **S**tation – nodi'r orsaf y mae'r swyddog yn gweithio ynddi
- **E**ntitlement – copi o'r cofnod
- **L**egal – y pŵer cyfreithiol a ddefnyddir
- **Y**ou – esbonio i'r unigolyn ei fod yn cael ei 'ddal at ddibenion chwiliad'

Byddai'r acronym GOWISELY hwn yn sail i ddealltwriaeth y panel wrth werthuso un o brif elfennau'r dydd, sef asesu a oedd gan swyddogion resymau priodol dros gynnal eu chwiliadau. Mae'n ofynnol i swyddogion gofio GOWISELY wrth iddynt berfformio digwyddiadau stopio a chwilio.

I gyd-fynd â hyn, rhoddodd y rhingyll fewnbwn hefyd ar y pwerau sydd gan yr heddlu i gynnal digwyddiad stopio a chwilio. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn friffio ar adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) ac adran 23 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau.

Yn ogystal â'r uchod, rhoddodd y Prif Arolygydd Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym fewnbwn hefyd mewn perthynas â'r data ar gyfer y cyfnod ym mis Chwefror 2025. O fewn y mewnbwn trafodwyd y canlynol:

- Cynhaliwyd 272 o chwiliadau gyda chyfradd lwyddo o 30% ar gyfer dod o hyd i eitemau wedi'u targedu; o gymharu â mis Chwefror 2024, lle cynhaliwyd 337 o chwiliadau gyda 23% o lwyddiant wrth ddod o hyd i eitemau wedi'u targedu.
- Roedd gan 98% o swyddogion gamera corff yn recordio trwy gydol y chwiliad. Tybir bod y rhai nad oedd yn recordio yn swyddogion heddlu mewn dillad cyffredin, nad ydynt yn cynnig y cyfleuster i wisgo camera corff.

Er mwyn cynorthwyo'r panel, darparwyd deunydd i'w ddarllen ymlaen llaw a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Yr acronym GOWISELY.
- Yr adroddiad panel sicrhau ansawdd blaenorol ar stopio a chwilio ym mis Mai 2024.
- Ffurflenni stopio a chwilio wedi'u golygu am yr oedolion a'r bobl ifanc a aseswyd ar y diwrnod.
- Templed ffurflen adborth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer sylwadau ysgrifenedig y panel.

Gofynnwyd i'r panel asesu'r canlynol:

1. A oedd y rhesymau a gofnodwyd yn gymesur i gynnal y digwyddiad stopio a chwilio.
2. Ar ddiwedd y cyfarfod, sut y byddent yn cymharu'r gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu rhwng oedolion a phobl ifanc.

## 2. Crynodeb gweithredol

At ei gilydd, adolygwyd wyth cofnod stopio a chwilio gan y panel.

**Adborth cadarnhaol:**

- Nodwyd gan y panel fod GOWISELY wedi'i ddilyn ym mhob cofnod a adolygwyd ond cwestiynwyd a ddylai dysgu a datblygu yn y dyfodol fynd i'r afael â gorddibyniaeth ar broses yn hytrach nag ymateb i'r cyhoedd.
- Ni welodd y panel unrhyw wahaniaeth yn y ffordd o drin camerâu corff o ran oedolion a phobl ifanc, ond teimlwyd y dylai pobl ifanc gael mwy o ystyriaeth.
- Barnwyd bod y rhesymau ar gyfer pump o'r wyth cofnod a welwyd yn gymesur.
- Mewn chwech o'r wyth cofnod a welwyd, roedd y panel o'r farn bod y staff yn gwrtais ac yn glir o ran stopio a chwilio.

**Meysydd i'w gwella:**

- Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i blant sy'n destun digwyddiadau stopio a chwilio. Awgrymodd y panel, er mwyn gwella eu diogelwch, y gellid addasu GOWISELY ar gyfer plant a chynnwys elfen o hysbysu'r rhieni / gwarcheidwaid cyfreithiol ar ôl cynnal y chwiliad.
- Gormod o anghysondeb ac anghywirdeb yn y ffordd y mae'r ffurflenni stopio a chwilio yn cael eu cwblhau.
- Roedd cofnodion 7 ac 8 yn bryder penodol i'r panel mewn perthynas ag agwedd, iaith a thôn y swyddogion a oedd yn cynnal y chwiliad.
- Rhywfaint o ddryswch ynghylch rhai o'r nodiadau goruchwylio a ddarparwyd i'r cofnodion hynny a gymeradwywyd, yr oedd gan y panel bryderon yn eu cylch.

## 3. Adolygiad o gofnodion stopio a chwilio

| Cofnod 1 – (Oedolyn) |
|---|
| *Mae'r heddlu wedi cael eu galw at ddyn meddw yn curo ar ddrws tafarn gan ddweud bod ei ffôn y tu mewn. Mae'r dyn wedi gadael cyn i'r heddlu gyrraedd ac fe'i gwelwyd yn rhoi cynnig ar ddrysau eiddo'r preswylwyr lleol. Cafodd yr unigolyn ei atal o dan adran 1 o PACE am ei fod yn cyfateb i'r disgrifiad a ddarparwyd.* |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br>• Roedd y rhesymau dros y chwiliad yn gymesur.<br>• Roedd y swyddogion wedi dangos ymddygiad da gyda'r unigolyn dan sylw. Cyfarwyddiadau clir a da, rhesymeg wedi'i darparu ac roeddent yn gwrtais drwyddi draw.<br>• Clywyd GOWISELY yn cael ei ddefnyddio, er na ddangoswyd cerdyn gwarant i'r unigolyn dan sylw.<br>• Ni roddodd yr unigolyn atebion clir ac roedd yn ymddangos ei fod yn osgoi'r cwestiynau y gofynnwyd iddo. Dangosodd swyddogion amynedd a dyfalbarhad da wrth holi. |
| **Meysydd i'w gwella**<br>• Edrychodd y swyddogion o dan het yr unigolyn heb ei ganiatâd. Byddai hyn yn groes i'r acronym techneg chwilio JOG (jacket, outer garment, gloves) sy'n ymwneud â'r gofyniad am ganiatâd unigolyn i dynnu unrhyw un o'r eitemau hyn, gan fod hyn yn datgelu croen i'r swyddogion sy'n cynnal y chwiliad.<br>• Roedd y panel yn ansicr a oedd rhoi gefynnau ar yr unigolyn yn angenrheidiol o ystyried bod ei ymddygiad yn gydymffurfiol; fodd bynnag, dywedodd aelodau eraill wrth adolygu'r ffurflen eu bod o'r farn bod hyn yn gymesur, i atal yr unigolyn rhag ffoi o'r lleoliad, ac wedi'i gofnodi'n unol â hynny. Fodd bynnag, nodwyd gan y panel nad oedd y rheswm dros roi'r unigolyn mewn gefynnau wedi'i gyfleu iddo o gwbl yn ystod y recordiad camera corff. |
| **Materion a godwyd**<br>• A oes angen i swyddogion ddangos cerdyn gwarant os ydyn nhw'n gwisgo lifrai?<br>• A ydyw negeseuon e-bost sy'n nodi y cynhaliwyd digwyddiad stopio a chwilio yn ddulliau priodol o ddatgelu, o ystyried na ellir gwirio'r cyfeiriad e-bost a ddarperir, yn wahanol i gyfeiriad cartref? Felly, a fyddai hyn yn cael ei ganiatáu o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data? |

| Cofnod 2 – (Unigolyn ifanc) |
|---|
| Galwyd yr heddlu i aflonyddwch lle'r oedd grŵp o bobl ifanc yn ceisio torri drws. Fe'u hataliwyd o dan adran 1 o PACE oherwydd y disgrifiad cyfatebol a ddarparwyd. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br>• Roedd y rhesymau dros y chwiliad yn gymesur ac roedd GOWISELY wedi'i ddefnyddio'n amlwg.<br>• Dangosodd y swyddog lawer o amynedd ac ymatebion cwrtais i'r bobl ifanc er gwaethaf eu hymddygiad heriol ac anghwrtais.<br>• Nodwyd gan y swyddog bod gan yr unigolyn anaf i'w ben ac roedd yn ymddangos ei fod yn dangos pryder angenrheidiol. Holodd hefyd ynglŷn â llygaid yr unigolyn ifanc am eu bod yn ymddangos yn ledagored.<br>• Roedd swyddog benywaidd, a oedd yng nghwmni'r swyddog yr oedd recordiad ei gamera corff yn cael ei arsylwi, yn destun sylw rhywiaethol ac fe wnaeth hi ymdrin â'r sefyllfa mewn modd proffesiynol. |
| **Meysydd i'w gwella**<br>• Pan gyrhaeddodd swyddogion i gynorthwyo'r swyddog arweiniol, nodwyd gan y panel fod dau swyddog wedi cyfathrebu â'r unigolyn. Roedd hyn wedi peri penbleth iddynt a chwestiynwyd a oedd hyn yn brotocol safonol. |
| **Materion a godwyd**<br>• A oes gweithdrefn ar gyfer pryd y dylid gefynnu unigolion ar y tu ôl?<br>• Nodwyd gan y panel fod dau swyddog wedi cyfathrebu â'r unigolyn ar yr un pryd, a bod hyn wedi peri penbleth iddynt. Cwestiynwyd a oedd hyn yn brotocol safonol. |

| Cofnod 3 –(Oedolyn) |
| --- |
| Sylwodd dau unigolyn ar yr heddlu ac ymddangoswyd eu bod wedi troi eu pennau a cherdded i'r cyfeiriad arall. Cafodd yr unigolyn ei atal o dan adran 23 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Nodwyd gan y panel, yn ystod y recordiad camera corff, fod aelod o'r cyhoedd wedi dod i gyfarfod â'r swyddogion a oedd yn cynnal y digwyddiad stopio a chwilio, gan nodi bod yr unigolion wedi bod yn loetran neu'n ceisio mynd i mewn i'w eiddo ar dri achlysur. Dywedodd y swyddogion eu bod yn amau bod yr unigolion a chwiliwyd wedi ceisio mynd i mewn i'r eiddo hwn i osgoi cael eu chwilio. Felly, byddai'r unigolion dan sylw wedi bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth i gynnal digwyddiad stopio a chwilio, a allai fod wedi ychwanegu at amheuon y swyddog. Fodd bynnag, ni nodwyd hyn yn y ffurflen stopio a chwilio. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Roedd y panel yn unfrydol yn credu nad oedd y rhesymau a bennwyd yn y ffurflenni, ac o'r hyn a welsant ar recordiad y camera corff, yn cael eu hystyried yn gymesur ar gyfer digwyddiad stopio a chwilio. Roedd y panel yn amau yr ystyriwyd bod yr unigolyn yn amheus oherwydd bod swyddogion o bosibl yn ymwybodol ei fod eisoes wedi defnyddio cyffuriau. Wrth gyfiawnhau'r rhesymau, dywedodd y swyddog mai'r rheswm oedd eu bod yn ymddwyn yn amheus.<br><br>• Y gwrthrychau y daethpwyd o hyd iddynt ar yr unigolyn oedd meddyginiaeth ar bresgripsiwn.<br><br>• Er bod yr unigolyn yng nghwmni rhywun arall, nid oedd yn ymddangos ei fod wedi bod yn destun chwiliad.<br><br>• Nid oedd yn ymddangos bod GOWISELY wedi cael ei ddilyn.<br><br>• Nid oedd agwedd y swyddog yn ymddangos yn gwrtais nac yn glir, ond yn amheus ac yn besimistaidd wrth ymwneud â'r unigolyn wrth drafod bod ganddo bresgripsiwn ar gyfer y cyffuriau yn ei feddiant.<br><br>• Roedd gan y panel bryderon bod goruchwyliwr wedi goruchwylio'r cofnod hwn ac wedi barnu ei fod yn dderbyniol. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Holodd y panel a ydyw'r amheuaeth, yn seiliedig ar ganfyddiad y swyddog o unigolyn yn symud i ffwrdd oddi wrtho'n fwriadol, yn rhesymau digonol i gynnal chwiliad.<br><br>• Beth yw'r broses a'r weithdrefn bresennol ar gyfer gwiriadau sicrhau ansawdd goruchwyliol ar y digwyddiad stopio a chwilio hwn? |

| Cofnod 4 – (Unigolyn ifanc) |
|---|
| Ymatebodd swyddogion i alwad mewn perthynas â cherddoriaeth uchel yn cael ei chwarae. Wrth gyrraedd fe wnaethon nhw ddarganfod arogl canabis yn dod o gyfeiriad y bobl ifanc. Cafodd y bobl ifanc eu chwilio o dan adran 23 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Dilynwyd GOWISELY ac roedd y panel o'r farn bod y ffurflen a gwblhawyd yn dangos ymarfer gorau. Roedd y rhesymau a bennwyd ar gyfer y chwiliad yn gymesur ac wedi'u cyfleu'n glir i'r bobl ifanc.<br><br>• Dangosodd y swyddogion gydberthynas ardderchog gyda'r bobl ifanc gan barhau i fod yn broffesiynol.<br><br>• Nodwyd gan y panel fod sylwadau'r goruchwyliwr a ddarparwyd yn fwy cywir ac yn fwy manwl na chofnodion eraill a welwyd gynt. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Roedd y swyddogion wedi sylwi ar 'falwr cyffuriau' yn recordiad y camera corff, ond nodwyd yn y ffurflen a gyflwynwyd na chanfuwyd dim. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Holodd aelod o'r panel a ellid bod wedi gofyn i'r bobl ifanc ddangos cynnwys eu pocedi yn hytrach na bwrw ymlaen â chwiliad hirfaith?<br><br>• O ystyried bod tri unigolyn ifanc wedi cael eu chwilio, nid oedd yn glir at ba un yr oedd y ffurflen yn cyfeirio'n benodol, a bu'r panel yn cwestiynu a oedd hyn wedi'i ysgrifennu mewn modd generig ac amhenodol i unrhyw unigolyn. |

| Cofnod 5 – (Oedolyn) |
|---|
| Cafodd swyddogion wybodaeth i awgrymu bod dyn yn meddu ar gyffuriau rheoledig dosbarth A ac yn eu cyflenwi o'i leoliad. Wrth ymweld â'r cyfeiriad gan weithredu gwarant adran 23 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau, daeth swyddogion o hyd i sylwedd rheoledig ar fwrdd yr ystafell fyw. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Roedd GOWISELY wedi'i gynnal a barnwyd bod y rhesymau yn gymesur. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Nodir ar y ffurflen na ddefnyddiwyd unrhyw rym; fodd bynnag, rhoddwyd gefynnau ar yr unigolyn ar y tu ôl. Gwelwyd yr unigolyn yn edrych yn anghyfforddus gyda thyndra'r gefynnau, ac er y gwelwyd swyddog yn ceisio eu llacio, nodwyd nad oedd modd eu llacio ymhellach. Holodd y panel oni ellid bod wedi rhoi'r gefynnau ar y tu blaen i'r unigolyn, a fyddai wedi bod yn fwy cyfforddus, yn enwedig gan ei fod yn cydymffurfio.<br><br>• Pan ofynnwyd iddo am dderbynneb y chwiliad, clywodd y panel y swyddog a ymatebodd yn dweud ei fod ar gael "ar ôl" tri mis ac nid "hyd at" dri mis.<br><br>• Canfu'r panel fod gormod o anghysondebau rhwng y ffurflen ysgrifenedig a recordiad y camera corff. O fewn y ffurflen, nodir o dan '*rhyw'r swyddogion yn bresennol'* mai gwrywaidd oeddent, ond roedd yn amlwg bod swyddogion benywaidd yn bresennol hefyd. Roedd y panel o'r farn bod adborth gwrthgyferbyniol o bosib, ac ychydig iawn ohono wedi'i gofnodi ar y ffurflen hon gyda recordiad y camera corff, gan mai chwiliad o'r safle oedd hwn, a'r cofnod yn chwiliad o'r unigolyn. |

| **Cofnod 6 – (Unigolyn ifanc)** |
|---|
| Roedd gan unigolyn ifanc "fwrdd rholio" a wnaeth beri i swyddogion gynnal chwiliad o dan adran 23 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Teimlwyd bod y swyddogion yn gwrtais drwyddi draw, a'i bod wedi datgelu eu hunain yn glir. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Roedd yr unigolyn y sonnir amdano yn y ffurflen wedi'i restru fel 18 oed, sy'n golygu nad yw'n cael ei ystyried yn unigolyn ifanc.<br><br>• Roedd recordiad y camera corff wedi'i olygu mewn modd nad oedd yn caniatáu i'r panel ddeall sut y daeth y swyddogion yn ymwybodol o'r unigolyn a oedd yn meddu ar fwrdd rholio, a oedd yn ymddangos fel pe bai wedi dod o boced ei gôt. Roedd hyn yn golygu nad oedd y panel o'r farn bod y rhesymau a nodwyd ar gyfer y chwiliad yn gymesur, oherwydd gan fod yr unigolyn yn meddu ar y bwrdd rholio, aeth y swyddogion ymlaen i'w holi ynghylch y defnydd o ganabis.<br><br>• Ni chafwyd unrhyw wybodaeth ynghylch cael dogfennaeth o'r chwiliad wedi'i ddarparu i'r unigolyn. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Roedd y panel yn ansicr sut yr oedd goruchwyliwr a wnaeth adolygu'r dogfennau a gweld recordiad y camera corff wedi cymeradwyo hyn. |

| **Cofnod 7 – (Oedolyn)** |
|---|
| Wrth i swyddogion batrolio yn eu cerbyd gyda'r hwyr, gwelsant ddyn yn ysmygu mewn drws siop gaeedig. Roedd y swyddogion yn gallu synhwyro arogl canabis, ac felly cynhaliwyd chwiliad o dan adran 23 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Dilynwyd gweithdrefn GOWISELY gan y swyddogion, ac roedd y rhesymeg a ddarparwyd i'r unigolyn yn glir.<br><br>• Teimlwyd bod y datrysiad cymunedol oedolyn yn gymesur. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Nid yw'n glir sut y llwyddodd swyddogion, ar y cyflymder yr oeddent yn teithio, ac mewn amodau gwlyb, i synhwyro arogl canabis o'u cerbyd wrth fynd heibio i'r unigolyn.<br><br>• Pan benderfynodd y swyddogion mai unigolyn Tsieineaidd ydoedd o ran ethnigrwydd, ond ei fod wedi'i eni yn y DU, eu cwestiwn dilynol oedd ynglŷn â'i hawl i aros yn y DU. Teimlai'r panel fod hyn yn amhriodol ac yn wahaniaethol.<br><br>• Clywyd swyddog ar recordiad y camera corff yn gofyn am fan cyn ymgysylltu â'r unigolyn. Nid oedd yn glir pam yr ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol, yn enwedig gan fod yr unigolyn yn cydymffurfio ac yn dawel drwy gydol yr amser.<br><br>• Teimlwyd bod ymddygiad ac agwedd y swyddog arweiniol tuag at yr unigolyn yn swta.<br><br>• Ni wnaeth y swyddogion gadarnhau pam yr oedd yr unigolyn yn sefyll wrth ddrws siop yn oriau mân y bore ar ei ben ei hun yn ysmygu canabis.<br><br>• Roedd gan y panel bryderon bod y goruchwyliwr hefyd wedi adolygu hyn ac wedi ei gymeradwyo. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• A oes gan swyddogion bwerau i ddefnyddio eu pwerau stopio a chwilio ar arogl yn unig? |

| **Cofnod 8 – (Unigolyn ifanc)** |
| --- |
| *Gwelwyd tri unigolyn ifanc yn cerdded ac yn cario crât o gwrw. Wrth weld yr heddlu, dyma'r bobl ifanc yn gollwng y cwrw a cheisio cerdded i ffwrdd. Chwiliwyd y bobl ifanc o dan adran 1 o PACE.* |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br>• Dilynwyd GOWISELY yn ystod y chwiliad cychwynnol o'r unigolyn ifanc cyntaf i gael ei chwilio.<br>• Gwelwyd swyddog yn meithrin cydberthynas â'r unigolyn ifanc cyntaf wrth gynnal y chwiliad. |
| **Meysydd i'w gwella**<br>• Mae'r amser a nodir yn y ffurflen yn anghywir.<br>• Ystyriwyd bod yr iaith a ddefnyddiwyd gan y swyddog arweiniol yn wael a bod yr esiampl a osodwyd gan y swyddog i'r bobl ifanc yn peri pryder, yn enwedig gan fod hyn yn hwyr gyda'r nos mewn man cyhoeddus. Nid oedd y panel o'r farn bod y swyddog wedi dangos unrhyw gwrteisi nac wedi addasu ei ymddygiad tuag at y bobl ifanc er gwaethaf y ffaith bod yr unigolyn ifanc cyntaf wedi cydymffurfio.<br>• Ystyriwyd bod tôn ac iaith y swyddog tuag at y bobl ifanc yn amhroffesiynol, yn negyddol ac yn ymosodol.<br>• Chwistrellwyd un o'r bobl ifanc â sylwedd fanililamid asid pelargonig (PAVA) wrth geisio ffoi. Nid oedd y panel yn teimlo bod hyn yn rhesymol ac yn gymesur. Gwelodd y panel hefyd swyddogion yn defnyddio grym yn erbyn yr unigolyn ifanc ar ddiwedd y fideo, gyda'r unigolyn ifanc wyneb i lawr ar y ddaear. Roeddent o'r farn bod y dull atal yn ormodol.<br>• Clywyd y swyddog yn cyfiawnhau ei ddefnydd o rym i swyddogion eraill gan nodi bod yr unigolyn ifanc wedi cerdded tuag ato mewn modd ymosodol ac yn ceisio ei fwrw. Ni welodd y panel hyn. Fodd bynnag, nodwyd gan y panel fod yr unigolyn ifanc wedi ceisio tynnu peipen law o eiddo i'w defnyddio fel arf. Roedd y panel o'r farn bod tôn ac ymddygiad y swyddog wedi gwneud i'r unigolyn ifanc deimlo dan fygythiad.<br>• Cododd y panel bryderon bod hyn wedi cael ei weld gan oruchwyliwr a'i fod wedi cael ei gymeradwyo oherwydd y grym gormodol a'r iaith a ddefnyddiwyd, a'r gwasanaeth a roddwyd gan y swyddog i un unigolyn ifanc penodol. |
| **Materion a godwyd**<br>• Defnyddiwyd yr acronym SHACKS yn hytrach na GOWISELY. A ydyw hyn yn dal yn briodol? A ydyw SHACKS yn dal yn berthnasol, ac a ddylid defnyddio GOWISELY? |

## 4. Ymateb i ymholiadau a godwyd

| Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|
| Roedd y panel o'r farn bod GOWISELY wedi'i ddilyn ar gyfer pob un o'r cofnodion a welwyd; fodd bynnag, roeddent yn cwestiynu a ddylid rhoi sylw dyledus i ddysgu a datblygu yn y dyfodol mewn perthynas â gorddibyniaeth efallai ar broses yn hytrach nag ymateb i'r aelod o'r cyhoedd y maent yn siarad ag ef. | *Fel heddlu, byddwn yn tynnu sylw at yr arsylwadau ynghylch "gorddibyniaeth robotig" bosibl ar GOWISELY fel rhwystr posibl i feithrin cydberthynas a chyfathrebu effeithiol i'r Adran Dysgu a Datblygu i ystyried adolygiad o'u darpariaeth hyfforddiant yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae angen i swyddogion fod yn gwbl ymwybodol o'r angen i ddilyn GOWISELY wrth gynnal digwyddiad stopio a chwilio ar unigolion, gan fod dilyn GOWISELY yn un o brif sylfeini digwyddiad stopio a chwilio cyfreithlon trwy sicrhau bod hawliau cyfreithiol unigolion yn cael eu cynnal mewn perthynas â digwyddiadau stopio a chwilio. Efallai mai pwyslais ar sgiliau cyfathrebu cyffredinol gwell yw'r ffordd orau ymlaen ond mae angen i ni sicrhau o hyd bod swyddogion yn dilyn y rheolau GOWISELY, ac os yw hynny'n arwain at rwystr bach i gyfathrebu effeithiol, mae hyn yn parhau i fod yn gyfaddawd derbyniol o'i gymharu â'r potensial o beidio â sicrhau diogelwch hawliau cyfreithiol yr unigolion.* |
| Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i blant sy'n destun digwyddiadau stopio a chwilio. Awgrymodd y panel, er mwyn gwella eu diogelwch, y gellid addasu GOWISELY ar gyfer plant a chynnwys elfen o hysbysu'r rhieni / gwarcheidwaid cyfreithiol. | *Byddwn yn cysylltu â'r Adran Dysgu a Datblygu ynghylch sut y mae swyddogion yn cael eu hyfforddi i ryngweithio â phobl ifanc sy'n destun digwyddiad stopio a chwilio, a gallwn ofyn i'r Adran Dysgu a Datblygu adolygu'r senarios hyfforddi cyfredol a ddefnyddir* |

| | |
|---|---|
| | *mewn hyfforddiant stopio a chwilio i fyfyrwyr sy'n swyddogion newydd, a llunio senarios "penodol i bobl ifanc" fel y gall swyddogion ddod yn fwy cyfforddus yn y maes hwn o ryngweithio stopio a chwilio. Byddwn hefyd yn adolygu'r gweithdrefnau presennol ynghylch diogelu pobl ifanc sy'n destun digwyddiad stopio a chwilio ac yn ystyried yr opsiynau ar gyfer hysbysu rhieni ac ati a beth fyddai'r weithdrefn ar gyfer hyn.* |
| A oes angen i swyddogion ddangos cerdyn gwarant os ydyn nhw'n gwisgo lifrai? | *Mewn perthynas â dangos cerdyn gwarant. Os yw swyddog mewn "lifrai", sy'n cael ei ddiffinio'n fras fel rhywun y gellir ei adnabod yn rhwydd fel swyddog heddlu, nid oes gofyniad cyfreithiol i'r swyddog gyflwyno ei gerdyn gwarant i'r unigolyn i'w archwilio. Os yw swyddog yn gweithredu "mewn dillad cyffredin" mae'n ofyniad cyfreithiol iddo gyflwyno ei gerdyn gwarant i'w archwilio wrth gynnal digwyddiad stopio a chwilio.* |
| A ydyw negeseuon e-bost sy'n nodi y cynhaliwyd digwyddiad stopio a chwilio yn ddulliau priodol o ddatgelu i'r unigolyn a chwiliwyd, o ystyried na ellir gwirio cyfeiriad e-bost, yn wahanol i gyfeiriad cartref; ac felly, a ganiateir hyn o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data? | *O ran y gweithdrefnau ar gyfer cael copi o'r cofnod stopio a chwilio cyflawn, dyma broblem sydd wedi deillio o'r defnydd cynyddol o dechnoleg mewn plismona gan nad ydym yn defnyddio ffurflenni stopio a chwilio papur bellach. Fel heddlu rydym yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldebau o ran trin a diogelu data personol, ac o ganlyniad i hyn mae arweinydd stopio a chwilio'r heddlu wedi cyflwyno gweithdrefn newydd yn ddiweddar lle mae pobl sy'n destun digwyddiad stopio a chwilio yn cael cerdyn "ffisegol" gyda chod QR sy'n mynd â'r unigolyn i'r adran berthnasol ar wefan yr heddlu lle gall gysylltu â* |

| | |
|---|---|
| | *chanolfan gyswllt yr heddlu a threfnu i gopi o'i gofnod stopio a chwilio gael ei ddarparu yn unol â hynny. Mae'r opsiwn hefyd yn parhau i'r unigolyn fynd i orsaf heddlu leol wyneb yn wyneb o fewn tri mis i ddyddiad y digwyddiad stopio a chwilio, lle, ar ôl bodloni'r Swyddog Ymholiadau Cyhoeddus o'i hunaniaeth, y gall wedyn gael copi ffisegol o'r cofnod stopio a chwilio.* |
| A oes gweithdrefn ar gyfer pryd y dylid gefynnu unigolion ar y tu ôl? | *O ran gefynnu unigolyn ar y tu ôl, nid oes canllawiau penodol ynghylch pryd y dylid gefynnu unigolyn ar y tu ôl gan y byddai hyn yn rhy ragnodol o ystyried yr holl fathau o sefyllfaoedd ac amgylchiadau y mae swyddogion heddlu yn eu hwynebu bob dydd. RHAID i unrhyw ddefnydd o efynnau gael ei gyfiawnhau ar bob achlysur ar wahân gan y swyddog sy'n eu defnyddio, a dylid creu cofnod defnyddio grym cyfatebol. Mae'n ofynnol i bob swyddog gweithredol gwblhau hyfforddiant gefynnu cymeradwy gan goleg plismona fel rhan o'u hyfforddiant diogelwch swyddogion cychwynnol fel swyddogion sy'n fyfyrwyr. Mae'n ofynnol hefyd i bob swyddog gweithredol gwblhau dau ddiwrnod o hyfforddiant diweddaru sgiliau diogelwch swyddogion bob 12 mis, sydd hefyd yn cynnwys hyfforddiant diweddaru sgiliau defnyddio gefynnau ynghyd â'r cyfiawnhad dros eu defnyddio.* |
| Nodwyd gan y panel fod dau swyddog wedi cyfathrebu â'r unigolyn ar yr un pryd yng nghofnod 2, a bod hyn wedi peri penbleth iddynt. Roeddent wedi cwestiynu a oedd hyn yn brotocol safonol. | *Dysgir egwyddor "cyswllt a chymorth" i bob swyddog, ac y mae'n cwmpasu'r amgylchiad hwn. Lle bo modd, dim ond un swyddog (cyswllt) ddylai fod yn rhyngweithio ag unigolyn ar unrhyw un adeg tra bod yr ail swyddog cymorth (neu* |

| | |
|---|---|
| | *ragor) yno i roi cymorth pe bai angen, ac i gynnal ymwybyddiaeth o'r sefyllfa tra bod y swyddog cyswllt yn ymgysylltu â'r unigolyn. Mewn sefyllfa a allai fod yn llawn straen, rydym yn cydnabod y gall mwy nag un llais ddrysu pethau, a dylai ein holl swyddogion ddefnyddio'r dull rhyngweithio hwn lle bynnag y bo modd. Nid oes dim i atal y swyddogion cyswllt a chymorth rhag newid rolau os oes angen, ond yr egwyddor sylfaenol yw un llais ar y tro. Byddwn yn rhoi adborth i'r Adran Dysgu a Datblygu ynghylch sicrhau bod hyn yn cael ei atgyfnerthu gyda swyddogion yn yr hyfforddiant cychwynnol ac yn yr hyfforddiant adnewyddu blynyddol.* |
| O ran cofnod 3, roedd y panel yn unfrydol o'r farn nad oedd y rhesymau a bennwyd yn y ffurflenni, a'r hyn a welsant yn y recordiad camera corff, yn cael eu hystyried yn gymesur ar gyfer digwyddiad stopio a chwilio. Roedd y panel yn amau yr ystyriwyd bod yr unigolyn yn amheus oherwydd bod swyddogion o bosibl yn ymwybodol ei fod eisoes yn ddefnyddiwr cyffuriau. Wrth gyfiawnhau'r rhesymau, dywedodd y swyddog mai'r rheswm oedd eu bod yn ymddwyn yn amheus.<br><br>Holodd y panel a ydyw amheuaeth, yn seiliedig ar ganfyddiad y swyddog o unigolyn yn symud i ffwrdd oddi wrtho'n fwriadol, yn rhesymau digonol i gynnal chwiliad. | *Mae amheuaeth yn oddrychol ac o ystyried yr amrediad o sefyllfaoedd y bydd swyddog yn ymdrin â nhw, ni fydd byth yn bosibl diffinio'n benodol beth sy'n amheus a beth sydd ddim yn ddigon eglur i gwmpasu pob sefyllfa. Mae swyddogion yn cael eu hyfforddi yn yr agwedd hon ar blismona ac yn ennill profiad gweithredol wrth iddynt symud ymlaen yn eu gyrfa. Cydnabyddir hefyd y gall un swyddog neu unigolyn weld neu sylwi ar iaith corff sy'n cynyddu ei amheuaeth, ac efallai na fydd swyddog neu unigolyn arall yn gallu gwneud hyn. Y llinell sylfaen yw mai cyfrifoldeb y swyddog yw egluro, fel rhan o'r rhesymau a gofnodir, pam ei fod yn teimlo bod ymddygiad penodol ac ati yn amheus, a dylid cofnodi hyn yn ddigon manwl i fod yn glir i "unigolyn rhesymol". Rhaid i swyddogion gyfiawnhau'n bersonol pam eu bod wedi defnyddio pŵer plismona penodol.* |

| | |
|---|---|
| O ran cofnod 4, holodd aelod o'r panel a ellid bod wedi gofyn i'r bobl ifanc a chwiliwyd ddangos cynnwys eu pocedi yn hytrach na bwrw ymlaen â chwiliad hirfaith?<br><br>Hefyd, nid oedd yn glir a oedd y ffurflen yn cyfeirio at un o'r tri unigolyn ifanc neu at bob un ohonynt.<br><br>Yn ogystal, roedd y swyddogion wedi sylwi ar 'falwr cyffuriau' yn y recordiad camera corff, ond nodwyd yn y ffurflen a gyflwynwyd na chanfuwyd dim. A ellir egluro hyn? | *Mae angen i swyddogion fod yn ymwybodol iawn o'r potensial i sefyllfa sy'n ymddangos yn ddiniwed waethygu'n gyflym ar unrhyw adeg. Pan fydd swyddog yn teimlo bod ganddo resymau digonol i gynnal digwyddiad stopio a chwilio unigolyn, disgwylir iddo gynnal asesiad risg gweithredol deinamig gan ddefnyddio'r model gwneud penderfyniadau cenedlaethol. Gan amlaf mae elfen o risg anhysbys yn gysylltiedig ag ymdrin ag unigolyn sy'n cael ei stopio a'i chwilio, ac felly'r arfer gorau yw gofyn i unigolion BEIDIO â thynnu eitemau o'u pocedi eu hunain. Pe byddai gan yr unigolyn arf cudd, fel cyllell fach neu lafn, gallai'r swyddog, wrth ganiatáu iddo gael mynediad at ei boced, ei roi ei hun mewn perygl difrifol o niwed. Yn yr un modd, pe byddai gan yr unigolyn gyffuriau rheoledig yn ei feddiant, byddai caniatáu i'r unigolyn roi ei law yn ei boced yn cynnig y cyfle iddo afael yn y cyffuriau yn gorfforol. Gan wynebu'r tebygolrwydd mawr y caiff ei ddarganfod, efallai y gallai'r unigolyn wedyn fynd i banig a gwneud penderfyniad gwael fel ceisio llyncu'r cyffur fel ffordd o'i waredu. Mae hyn yn peri risg iechyd go iawn i'r unigolyn ac mae gan y swyddogion ddyletswydd gofal tuag at yr unigolyn. O ganlyniad, addysgir swyddogion i chwilio a thynnu cynnwys pocedi unigolyn eu hunain ac, yn ddelfrydol, i beidio â chaniatáu i'r unigolyn gael mynediad rhwydd i'w bocedi nes bod y swyddog yn fodlon nad oes unrhyw risg amlwg.*<br><br>*O ran sut y cofnodwyd y ffurflenni, pan fo mwy nag un unigolyn yn cael ei chwilio mewn grŵp o unigolion a bod y rhesymau dros chwilio pob unigolyn (y mae'n rhaid iddynt fod* |

| | |
|---|---|
| | *yn bresennol ym mhob achos) yr un fath yn y bôn, gellir atgynhyrchu'r rhesymau ar bob ffurflen. MAE angen cwblhau ffurflen ar gyfer pob unigolyn sy'n cael ei chwilio.*<br><br>*Mae'r panel yn cyfeirio at swyddogion yn sylwi ar "falwr cyffuriau", ond nodwyd ar y ffurflen na ddarganfuwyd dim. Nid yw "malwr cyffuriau" yn eitem waharddedig, ac os nad oedd yn cynnwys sylwedd rheoledig fel canabis, mae'n gyfreithlon ei gael yn eich meddiant. Mae'r adran sy'n ymwneud ag "eitemau a ddarganfuwyd" ar y ffurflen yn ymwneud ag eitemau sy'n cael eu canfod sy'n destun y chwiliad, megis cyffuriau, arf gwaharddedig, nwyddau wedi'u dwyn ac ati.* |
| O ran cofnod 5, nodir ar y ffurflen na ddefnyddiwyd unrhyw rym; fodd bynnag, cafodd yr unigolyn ei gefynnu ar y tu ôl. Gwelwyd yr unigolyn yn edrych yn anghyfforddus gyda thyndra'r gefynnau; ac er y gwelwyd swyddog yn ceisio eu llacio, nodwyd nad oedd modd eu llacio ymhellach. Holodd y panel oni ellid bod wedi rhoi'r gefynnau ar y tu blaen i'r unigolyn, a fyddai wedi bod yn fwy cyfforddus, yn enwedig gan ei fod yn cydymffurfio.<br><br>Canfu'r panel hefyd fod gormod o anghysondebau rhwng y ffurflen ysgrifenedig a'r recordiad camera corff. O fewn y ffurflen, mae'n nodi o dan '*rhyw'r swyddogion a oedd yn bresennol*' mai gwrywaidd oeddent, ond roedd yn amlwg bod swyddogion benywaidd yn bresennol. | *O ran yr unigolyn yn cael ei roi mewn gefynnau ar y tu ôl yn hytrach nag ar y tu blaen, fel y soniwyd uchod, penderfyniad y swyddog ar y pryd yw hwn a rhaid iddo allu cyfiawnhau'n llawn defnyddio gefynnau a gefynnu ar y tu ôl.*<br><br>*O ran rhai anghysondebau yn y cofnod, cyfrifoldeb pob swyddog yw cwblhau'r ffurflen yn gywir, a chyfrifoldeb goruchwyliwr y swyddog yw adolygu pob ffurflen sydd wedi'i chwblhau. Byddwn yn rhoi adborth i'r unigolion perthnasol ar y pryderon ynghylch yr anghysondebau.* |

| | |
|---|---|
| Nid oedd yn glir sut y canfu'r swyddogion y rhesymau i gynnal y chwiliad ar yr unigolyn yng nghofnod 6.Nid oedd y ffordd y golygwyd y fideo yn dangos sut y daeth y swyddogion yn ymwybodol bod yr unigolyn yn meddu ar fwrdd rholio a pham y byddai hyn yn ysgogi swyddogion i gynnal chwiliad. Cododd hyn gwestiynau ynghylch sylwadau'r goruchwyliwr ar gyfer y cofnod hwn.<br><br>Cododd y panel bryderon hefyd ynglŷn â chofnodion 7 ac 8, a oedd wedi cael eu cymeradwyo gan oruchwyliwr. Mynegodd aelodau'r panel bryderon ynghylch ymddygiad amhroffesiynol y swyddogion sy'n destun y recordiad camera corff. A oes angen gwneud mwy o waith craffu gyda'r goruchwylwyr sy'n goruchwylio cofnodion y ddalfa? | *Ar hyn o bryd mae'r adolygiad o gofnodion ar ffurf templed ar system rheoli cofnodion NICHE. Byddwn yn adolygu hyn i benderfynu ai hwn yw'r dull mwyaf effeithiol o oruchwylio cofnodion. Mae cofnodion stopio a chwilio yn destun goruchwyliaeth bellach o ran hapsamplu gan arolygwyr rhanbarthol. Byddwn yn codi'r pwynt hwn i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu i'w ystyried ymhellach.* |
| Defnyddiwyd yr acronym SHACKS yn hytrach na GOWISELY yng nghofnod 8. A ydyw hyn yn dal yn briodol? A ydyw SHACKS yn dal yn berthnasol, ac a ddylid defnyddio GOWISELY yn bennaf? | *Addysgir y dull mnemonig SHACKS i swyddogion fel dull o gofnodi'n effeithiol y rhesymau dros ddigwyddiadau stopio a chwilio, ac ni ddylai ddisodli GOWISELY sydd, os caiff ei ddilyn yn gywir, yn sicrhau bod hawliau cyfreithiol yr unigolyn o ran defnyddio pwerau stopio a chwilio yn cael eu cynnal. Byddwn yn ychwanegu cofnod at "fowt wybodaeth" yr heddluoedd ynglŷn â hyn i sicrhau bod swyddogion yn cael eu hatgoffa o'r gwahaniaeth rhwng y ddau gofair hyn.* |
| O ran cofnod 7, teimlai'r panel fod y swyddog yn amhriodol ac yn ymddwyn yn wahaniaethol tuag at yr unigolyn o ran ei gwestiynau a'i ymddygiad awdurdodol er gwaethaf y ffaith bod yr unigolyn yn ymddangos yn dawel ac yn gydymffurfiol. Roedd yn swta, ac roedd ei resymeg dros gynnal y | *Disgwylir i'n swyddogion fod yn barchus ac yn gwrtais i bobl yn ystod digwyddiadau stopio a chwilio, ac i ymddwyn yn broffesiynol bob amser. Rydym yn derbyn barn y panel yn llawn mewn perthynas â'r digwyddiad hwn a byddwn yn gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â'r mater. Lle canfyddir bod safon* |

| | |
|---|---|
| digwyddiad stopio a chwilio yn amheus. (Nid yw'n glir sut y llwyddodd swyddogion, ar y cyflymder yr oeddent yn teithio, i synhwyro arogl canabis o'u cerbyd wrth fynd heibio i'r unigolyn). | *ymddygiad swyddog wedi gostwng islaw'r safon uchel a ddisgwylir ganddo, byddwn yn cymryd camau priodol.* |
| O ran cofnod 8, roedd gan y panel bryderon ynghylch y ffordd yr oedd y swyddog hwn yn ymddwyn tuag at bobl ifanc. Er ei bod yn amlwg bod y swyddog yn adnabod y bobl ifanc, cwestiynwyd ei ymddygiad, ei agwedd, ei iaith, ei broffesiynoldeb a'i gyfiawnhad dros gymhwyso defnyddio grym. | *Fel uchod o ran cofnod 7, byddwn yn gwneud ymholiadau pellach mewn perthynas â'r digwyddiad hwn gan ystyried barn ac asesiad y panel, a byddwn yn sicrhau bod ad-borth, lle y bo'n briodol, yn cael ei roi i'r swyddog a'i oruchwyliwr.* |
| Beth yw'r broses a'r weithdrefn bresennol ar gyfer gwiriadau sicrhau ansawdd goruchwyliol ar y digwyddiad stopio a chwilio hwn? | *Dyma'r broses bresennol ar gyfer sicrhau ansawdd cofnodion stopio a chwilio gan oruchwylwyr:*<br><br>• *Mae cofnod stopio a chwilio yn cael ei gwblhau gan y swyddog. Mae hyn yn cynhyrchu "tasg" awtomatig ar y system rheoli cofnodion Niche ar gyfer goruchwyliwr y swyddog gan ei annog i adolygu'r cofnod.*<br><br>• *Dylai'r goruchwyliwr adolygu'r cofnod a, lle bo angen, adolygu recordiad y camera corff hefyd.*<br><br>• *Yna mae'r goruchwyliwr yn llenwi templedi sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd y cofnod stopio a chwilio. Mae'r cyntaf o'r rhain yn cwmpasu amrywiol elfennau'r cofnod megis cofnodi'r rhesymau yn briodol ac ati. Yna mae'r goruchwyliwr yn graddio'r cofnod fel GWYRDD (cwbl foddhaol), MELYN (rhannol foddhaol), neu GOCH (anfoddhaol), ac mae ganddo'r opsiwn o ddewis o restr* |

| | |
|---|---|
| | *o gamau gweithredu pellach fel "dadfriffio", adolygiad un i un, cynllun gweithredu ac ati os dymunir. Mae yna hefyd yr op-siwn i ychwanegu testun rhydd os yw'r goruchwyliwr yn dymuno gwneud hynny.*<br><br>• *Yna gellir llenwi ail dempled lle mae'r goruchwyliwr yn cadarnhau ei fod wedi adol-ygu'r cofnod, a'i fod wedi'i gwblhau'n foddhaol.*<br><br>*Bydd y broses y mae goruchwylwyr yn adolygu cofnodion stopio a chwilio drwyddi yn cael ei hystyried a'i hadolygu fel rhan o gyfarfodydd Bwrdd Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu.* |

## 5. Cam Nesaf

Mae'r SCHTh wedi cael eu gwahodd i mynychu'r Grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu, sydd yn cyfarfod yn cynnwys Prif Archwilwyr o bob ardal o Ddyfed-Powys i archwilio perfformiad yn Defnyddio achosion grym ac Stopio a Chwilio. Nod y cyfarfod yma yw i cyflwyno rheolaeth berfformiad gyn-hwysfawr, effeithiol a chydlynol ar gyfer Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu ledled Ddyfed-Powys. O fewn y ffwrwm yma, bydd canfyddiadau'r Panel Sicarah Ansawdd yn cael eu rhannu a bydd cynnydd yn cael ei fo-nitro.

Bydd y Panel Sicarhu Ansawdd yn parhau i archwilio Defnyddio achosion grym a Stopio a Chwilio ar sail flynyddol i asesu cynnydd yn y meysydd hyn.